

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N. Moore (Cadeirydd); Cynghorydd L. Burnett (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr B.T. Gray, P.G. King, K.F. McCaffer, M.R. Wilkinson and E. Williams.

C750 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

C751 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

C752 DATGANIADAU BUDDIANT –

Y Cynghorydd P.G. King	Roedd y buddiant yn ymwneud ag Eitem 13 yr Agenda – 'Cae Chwarae Brenin Siôr V, Llandochau'. Datganodd y Cynghorydd King fuddiant fel Aelod o Gyngor Cymuned Llandochau, ond roedd ganddo ganiatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad, pleidleisio a chymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau mewn perthynas â'r agenda Ail-lunio Gwasanaethau yr oedd yr adroddiad yn ymwneud â hi.
------------------------	---

C753 DIOGELWCH A CHEFNOGAETH CYNGHORWYR (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 22 Tachwedd 2021.

Eglurodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn nodi canllawiau defnyddiol fel bod Cynghorwyr yn deall y camau y dylent eu rhoi ar waith i'w diogelu eu hunain. Cyfeiriodd hefyd at Bolisi Gwaith Unigol yr Awdurdod sydd ynghlwm fel Atodiad at

No.

yr adroddiad yn ogystal ag Atodiad B a oedd yn manylu ar ganllaw yn ymwneud â Diogelwch Personol Cyngorwyr.

Yna

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Canllawiau'n cael eu cymeradwyo a'u rhoi ar wefan yr Awdurdod a'u e-bostio at bob Cyngorydd a Chyngorwyr Tref a Chymuned yn amodol ar Benderfyniadau (2) a (3) isod.

(2) Y DYLLID argymell i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 6 Rhagfyr 2021, pan fo Cyngorydd mewn perygl personol neu mewn perygl o gael niwed sylweddol wrth gyflawni ei rôl, y dylid ystyried ariannu mesurau diogelwch priodol, yn enwedig mewn achosion pan fo'r heddlu neu wasanaethau diogelwch wedi cyngori mesurau o'r fath.

(3) Y DYLLID argymell i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 6 Rhagfyr 2021, y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau Democratiaidd a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 i ystyried a phenderfynu ar unrhyw gais am gyllid o'r fath.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1-3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C754 AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH – CYNLLUN GWEITHREDU (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd ar 22 Tachwedd 2021.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Pwyllgor wedi ystyried y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth Drafft ac wedi argymell mabwysiadu'r cynllun i gyfarfodydd nesaf y Cabinet a'r Cyngor.

Yna

PENDERFYNWYD – BOD y Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn cael ei gymeradwyo, a dylid cyfeirio'r adroddiad at gyfarfod nesaf y Cyngor ar 6 Rhagfyr 2021 yn argymell mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C755 FFORWM YMGYNGHOROL AR Y CYD – 18 HYDREF, 2021 -

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghori ar y Cyd a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2021 fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at faint o waith a wnaed ac a ystyriwyd yn y cyfarfod a oedd yn cynnwys y Strategaeth Llety, Fframwaith Gweithio Hyblyg, Strategaeth y Gweithlu a'r Cynllun Gweithredu Drafft, Cynllunio Olyniaeth, Hyfforddiant Datblygu Rheoli ac Amrywiaeth a Dathliadau'r Wythnos Cynhwysiant ddiweddar, a diweddariadau ar y Rhaglen Ail-lunio, Prosiect Sero, Oracle a Diweddariad Strwythur y Tîm Arweinyddiaeth Uwch.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2021 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

O nodi'r cofnodion

C756 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y RHEOLWR GYFARWYDDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Cabinet am y ffordd y mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr wedi arfer Pwerau Brys ers yr adroddiad diwethaf ar 25 Hydref 2021.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o Bwerau Brys gan y Rheolwr Gyfarwyddwr fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C757 SYLFAEN Y DRETH GYNGOR (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2022-23 yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth) (Cymru) 1995 (OS 1995/2561 fel y'i diwygiwyd gan OS 1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004) OS 2004/3094.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

No.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD - Y BYDDAI, yn unol â'r adroddiad hwn ac yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail Dreth) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, y swm a gyfrifwyd gan Gyngor Caerdydd fel Sail Dreth y Cyngor ar gyfer 2019/20 yn:

- Ar gyfer yr ardal gyfan: 61,978
- Ar gyfer ardal Cyngorau Tref a Chymuned

Y Barri	20,845	Pendeulwyn	356
Tregolwyn	373	Pen-llin	1,062
Y Bont-faen gyda Llanfleiddan	2,788	Llanbedr-y-fro	551
Dinas Powys	4,027	Y Rhws	3,232
Ewenni	448	Sain Tathan	1,524
Llancarfan	479	Saint-y-brid	1,418
Llandochoau	957	Sain Dunwyd	210
Llandŵ	432	Sain Siorys a Llananfraid Elái	236
Llanfair	382	Sain Nicolas a Thresimwn	726
Llan-gan	464	Sili a Larnog	2,591
Llan-maes	252	Llanddunwyd	321
Llanilltud Fawr	4,317	Gwenfô	1,569
Llanfihangel	229	Y Wig	541
Penarth	11,648		

Y rheswm dros y penderfyniad

Roedd yn hanfodol gosod Sail Treth y Cyngor er mwyn iddi gael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i defnyddio gan Gyngorau a chyrrff ardollau i bennu praeseptau.

C758 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR Y COD YMARFER A ARGYMHELLIR AR GYFER CYHOEDDUSRWYDD AWDURDOD LLEOL (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad uchod gan Lywodraeth Cymru.

Roedd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar God Ymarfer drafft a Argymhellir ar Gyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol. Paratowyd cyflwyniad ar ran y Cyngor.

No.

Atodwyd Atodiad A at yr adroddiad (dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru), ac Atodiad B (ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad). Gofynnwyd i'r Cabinet ystyried cynnwys ymgynghoriad Llywodraeth Cymru a chymeradwyo'r ymateb drafft i'r ymgynghoriad i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 10 Rhagfyr 2021.

Oherwydd y dyddiad cau ar gyfer ymateb, ceisiwyd cymeradwyaeth y Cabinet hefyd i gytuno ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys fel y nodir yn Adran 14:14 o Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn cyfeirio'r mater at Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau ar gyfer ymatebion.

Dywedodd yr Arweinydd wrth gyfeirio at baragraff 2.5 yr adroddiad ynghylch cyhoeddi datganiadau personol ar brif wefannau cynghorau fod Llywodraeth Cymru wedi tynnu'n ôl y ddarpariaeth o ddatganiadau personol ymgeiswyr yn cael eu cyhoeddi ar gyfer yr etholiadau nesaf i'w cynnal yn 2022 ond y gallent ei hystyried yn y dyfodol. O'r herwydd, roedd y cyfeiriad at ddatganiadau personol yn parhau yn ymateb y Cyngor fel mater i'w ystyried yn y dyfodol.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD cynnwys yr adroddiad a'r ymateb drafft i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried a'u cytuno i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

(2) BOD y weithdrefn frys a nodir yn adran 14:14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei harfer mewn perthynas â Phenderfyniad (1) uchod.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi'r Cyngor i ymateb i'r Ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer drafft a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol.

(2) Galluogi cyflwyno'r ymateb erbyn 10 Rhagfyr 2021.

C759 TREFNIADAU DERBYN YSGOL 2023/2024 (DA/AA) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT) –

Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar drefniadau derbyn i ysgolion yr Awdurdod Lleol fel sy'n ofynnol gan God Derbyn Ysgolion Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013 a oedd yn cynnwys diwygiad arfaethedig i ddalgylchoedd ysgolion.

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn er mwyn cymeradwyo ymgynghoriad ar drefniadau derbyn i ysgolion ar gyfer derbyn disgyblion ym mlwyddyn academaidd 2023/2024. Roedd hyn yn ofynnol er mwyn bodloni rhwymedigaethau'r Cynghorau i ymgynghori'n flynyddol a chytuno ar y trefniadau derbyn erbyn 15 Ebrill 2022.

No.

Roedd y trefniadau derbyn wedi'u diwygio i adlewyrchu'r newidiadau i'r gyfraith ar dderbyniadau o ganlyniad i weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018, nad ydynt wedi'u hadlewyrchu ar hyn o bryd yn y Cod Derbyn i Ysgolion.

Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau eraill i'r trefniadau derbyn i ysgolion y cytunwyd arnynt y llynedd ar gyfer derbyniadau i ysgolion ym mlwyddyn academiaidd 2022/2023.

Byddai'r cyfnod ymgynghori'n cychwyn ar 04 Ionawr 2022 ac yn dod i ben ar 11 Chwefror 2022. Byddai adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mawrth 2022.

Argymhellwyd bod y Cabinet yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad fel y gellid cynnal yr ymgynghoriad statudol ar Bolisi Derbyn i Ysgolion Bro Morgannwg a'r trefniadau ar gyfer 2023/2024 o fewn yr amserlenni statudol.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD - BOD yr ymgynghoriad sydd ei angen i gytuno ar drefniadau derbyn yr Awdurdod Lleol (sydd wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad) ar gyfer pob ysgol gymunedol ym Mro Morgannwg yn cael ei gymeradwyo.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae paragraff 2.3 (tudalen 6) o'r Cod Derbyn i Ysgolion (Cymru) Gorffennaf 2013 yn nodi "Rhaid ymgynghori ar Drefniadau Derbyn ar gyfer pob ysgol a gynhelir rhwng 1 Medi a 1 Mawrth a chael eu pennu erbyn 15 Ebrill yn y blynyddoedd ysgol sy'n dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n gymwys ynddi".

C760 EGWYDDORION DULL RHANBARTHOL AT GYFLOGADWYEDD (DA/AA) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT) –

Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu'r Fframwaith ar gyfer Cyflogadwyedd.

Roedd Awdurdodau Lleol ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi llwyddo i sicrhau cyflogadwyedd am ddau ddegawd. Roedd y prosiectau hynny wedi cefnogi degau o filoedd o drigolion i gael gwaith, i mewn i gyflogaeth â chyflog gwell neu i ddysgu pellach, wedi helpu ein trigolion NEET ifanc ac wedi bod yn biler allweddol ar gyfer myyrraeth gynnar ac atal.

Amlygodd cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 2019 y gwerth a'r pwysigrwydd roedd cyflogwyr yn eu rhoi ar 'gyflogadwyedd' a'r rôl

No.

allweddol roedd yn ei chwarae wrth helpu trigolion i gael swyddi'r dyfodol. Yng ngoleuni'r adferiad o bandemig Covid, roedd hyn yn bwysicach nag erioed.

O ganlyniad, roedd Grŵp Clwstr Awdurdodau Lleol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) wedi bod yn cydweithio i lunio Fframwaith Rhanbarthol newydd i lywio sut y caiff gweithgareddau cyflogadwyedd eu darparu yn y rhanbarth yn y dyfodol.

Roedd y Fframwaith, sydd wedi'i atodi yn Atodiad B i'r adroddiad, yn ystyried y dirwedd gyflogadwyedd bresennol, y gwersi o brosiectau cyfredol a'r newidiadau sydd ar y gweill yn y tirlun polisi a'r farchnad lafur. Roedd y Fframwaith yn cloi gyda'r egwyddorion allweddol canlynol a nodwyd yn fanylach yn yr adroddiad:

- Mae cyfrifolaeth yn gweithio
- Roedd gwybodaeth leol yn hollbwysig
- Yr angen am frand y gellir ymddiried ynddo
- Atal dros broffidioldeb
- Roedd parhad darpariaeth yn werthfawr ac yn gost-effeithiol
- Roedd rhannu dysgu rhanbarthol yn ychwanegu gwerth
- Roedd costau prosiect symlach wedi bod yn effeithiol
- Taith "cyflogadwyedd" nid taith "prosiect" oedd yn cael yr effaith fwyaf
- Nid oedd un fframwaith o reidrydd yn golygu un prosiect
- Ni ddylai cyflogadwyedd fod yn fater o chwilio am swyddi yn unig; dylai fod yn chwilio am swyddi cynaliadwy.

Cymeradwywyd y Fframwaith hwn gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'r Cyngor Busnes Rhanbarthol.

Pan ddaw cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop i ben yn 2022, byddai'r fframwaith yn sail i geisiadau rhanbarthol ar gyfer cyflogadwyedd ar ôl i gyllid yr UE ddod i ben.

Canmolodd y Dirprwy Arweinydd y gwaith a wnaed gan y Gwasanaethau leuenctid o ran cefnogi pobl ifanc i gael gwaith neu ddysgu pellach.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) BOD yr egwyddor o ddull gweithredu wedi'i ddarparu'n lleol, wedi'i gydgyssylltu'n rhanbarthol ar gyfer cyflogadwyedd ar ôl yr UE, yn cael ei gymeradwyo.
- (2) BOD y Fframwaith ar gyfer Cyflogadwyedd yn y Dyfodol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd fel y dangosir yn Atodiad B i'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1a2) Sicrhau bod yr Aelodau'n cymeradwyo sefydlu perthynas waith strategol ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gynnwys pob un o'r 10 Awdurdod Lleol i ddatblygu'r ffordd y caiff darpariaeth cyflogadwyedd ei diogelu yn y dyfodol.

**C761 STRATEGAETH DDRAFFT AR DAI LLEOL 2021 – 2026 (WTA)
(CRAFFU – CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) –**

Diben yr adroddiad oedd ystyried Strategaeth Dai Leol ddrafft 2021 - 2026.

Roedd Strategaeth Tai Lleol arfaethedig 2021-26 yn nodi'r weledigaeth ar gyfer tai ym Mro Morgannwg sef 'Bydd gan bob preswlydd ym Mro Morgannwg fynediad at dai addas o ansawdd da a gallant fyw'n hapus ac yn annibynnol mewn cymunedau bywiog a chynaliadwy.'

Roedd yn ofynnol i bob awdurdod lleol lunio a chyhoeddi Strategaeth Dai Leol (SDL) o dan Adran 87 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Roedd Strategaeth Dai Leol 2021-26 yn adeiladu ar y Strategaeth Dai flaenorol ar gyfer Bro Morgannwg a nododd sut y byddai'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth i fodloni gofynion tai'r ardal, datblygu atebion a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella ansawdd bywyd trigolion a thrigolion Bro Morgannwg yn y dyfodol.

Fel awdurdod lleol sy'n cadw stoc, gallai'r Cyngor gael gafael ar gyllid grant drwy Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i adeiladu tai fforddiadwy yn ei rinwedd ei hun neu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Roedd gan y Cyngor ei raglen gyflenwi ei hun a oedd yn ategu datblygiadau tai a ddarparwyd gan sefydliadau partner.

Ym mis Chwefror 2020, cynhaliodd y Cyngor ddigwyddiad Strategaeth Dai Leol oedd yn cynnwys cyflwyniadau, gweithdai ac ymarferion ymgynghori yn canolbwyntio ar ddarparu mwy o Dai carbon-isel, Tai Fforddiadwy, Cymunedau Cynaliadwy a Thai Arbenigol. Defnyddiwyd y digwyddiad, ynghyd â barn sefydliadau partner, cynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, Aelodau etholedig ac adrannau'r Cyngor i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth.

Roedd y Strategaeth Dai Leol yn nodi'r weledigaeth hirdymor y cytunwyd arni'n lleol ar gyfer tai ym Mro Morgannwg; darparodd ddatganiad o amcanion strategol lleol sy'n gysylltiedig â thai a chanlyniadau targed y cytunwyd arnynt. Roedd y strategaeth yn cwmpasu cyfnod o bum mlynedd; fodd bynnag, edrychwyd ar y weledigaeth dros gyfnod hirach yng nghyd-destun y Cynllun Corfforaethol. Y nodau, yr amcanion a'r bwriadau oedd cyfrannu at weledigaeth y Cyngor ar gyfer dyfodol Bro Morgannwg: "Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair".

Mae'r Strategaeth Dai Leol yn nodi'r dull a fyddai'n cael ei ddefnyddio i fodloni gofynion deddfwriaethol Deddf Tai (Cymru) 2014 a deddfwriaeth ddilynol. Nid oedd y strategaeth yn manylu ar yr holl weithgareddau a oedd yn cael eu cynnal i wella gwasanaethau ac ansawdd bywyd yn y Fro. Fodd bynnag, roedd yn

No.

darparu gweledigaeth lefel uchel a fframwaith ar gyfer y pum mlynedd nesaf a oedd yn tynnu sylw at y materion allweddol y ceisiodd y strategaeth fynd i'r afael â nhw.

Mae nifer o gyllidebau tai yn berthnasol i weithredu'r Strategaeth; roedd y rheiny'n cynnwys y Grant Cymorth Tai; Y Grant Hwyluswyr Tai Gwledig; Y Grant Tai Cymdeithasol; Cyllid adfywio a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

Roedd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid drwy ei Chronfa Adfer Covid mewn perthynas â newidiadau mewn deddfwriaeth Digartrefedd a phwysau ychwanegol ar adrannau digartrefedd mewn perthynas â Covid-19.

Roedd Adran Dai'r Cyngor yn ymwybodol o oblygiadau adnoddau gweithredu'r Strategaeth ac yn deall y ffynonellau ariannu perthnasol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nod strategol.

Byddai llawer o'r goblygiadau o ran adnoddau yn y strategaeth yn effeithio ar sefydliadau partner sy'n darparu gwasanaethau tai a rhai eraill yn gysylltiedig â thai. Roedd yr holl bartneriaid perthnasol wedi bod yn ymwneud â datblygu'r strategaeth.

Dywedodd yr Aelod Cabinet a'r Arweinydd eu bod ill dau'n edrych ymlaen at y drafodaeth a fyddai'n cael ei chynnal yn y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel cyn i'r Strategaeth derfynol gael ei chyfeirio at y Cabinet a'r Cyngor Llawn i'w chymeradwyo.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei ystyried a bod Strategaeth Dai Leol ddrafft 2021 - 2026 yn cael ei chymeradwyo.

(2) BOD y Strategaeth Dai Leol ddrafft yn cael ei chyfeirio at y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel i'w hystyried.

(3) BOD barn y Pwyllgor Craffu ar Strategaeth Dai Leol Ddrafft 2021 - 2026 yn cael ei hystyried gan y Cabinet cyn i'r Strategaeth derfynol gael ei chyfeirio at y Cyngor Llawn i'w chymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Nodi'r cyfeiriad strategol yr oedd y Cyngor am ei ddilyn wrth ymateb i heriau tai allweddol a wynebir ym Mro Morgannwg, gan gynnwys diwallu'r angen am dai, gwella mynediad a chryfhau cartrefi a chymunedau presennol.

(2) Sicrhau'r lefel briodol o graffu ar y ddogfen strategol allweddol hon.

No.

(3) Caniatáu i'r Cabinet wneud penderfyniad cwbl wybodus ar y Strategaeth derfynol cyn cyfeirio at y Cyngor Llawn.

**C762 CAE CHWARAE KING GEORGE V, LLANDOCHAU (HCD)
(CRAFFU - BYW IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL) –**

Datganodd y Cynghorydd King fuddiant fel Aelod o Gyngor Cymuned Llandochau, ond roedd ganddo ganiatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad, pleidleisio a chymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau mewn perthynas â'r agenda Ail-lunio Gwasanaethau yr oedd yr adroddiad yn ymwneud â hi.

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i ymrwymo i Weithred Gyflwyno gyda Meysydd Chwarae Cymru i ddarparu statws manau gwyrdd gwarchoddedig i gae chwarae Brenin Siôr V yn Llandochau.

Yn dilyn nifer o fentrau ar y cyd â Chyngor Cymuned Llandochau i wella ansawdd cae chwarae Brenin Siôr V, gan gynnwys Ardal Gemau Aml-ddefnydd (AGADd) newydd ac uwchraddio'r maes chwarae, roedd y Cyngor Cymuned wedi gofyn i'r cae gael ei gofrestru gyda Meysydd Chwarae Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Drwy gofrestru'r cae chwarae gyda Meysydd Chwarae Cymru byddai'n destun Gweithred Gyflwyno ac yn sicrhau ei bod yn parhau i gael ei defnyddio fel man agored gwyrdd.

Mae trafodaethau gyda Meysydd Chwarae Cymru wedi cadarnhau y byddent yn croesawu'r cyfle i gofrestru'r tir hwn gyda nhw.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod yr adroddiad yn dangos pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned er budd trigolion a chymunedau lleol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai'r adroddiad hefyd yn sicrhau bod y tir dan sylw yn cael ei ddiogelu am byth a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Williams.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant a'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraataidd, i ddynodi cae chwarae Brenin Siôr V o dan y rhaglen Meysydd Chwarae Cymru briodol.

No.

(2) BOD y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraataidd yn cael ei awdurdodi i lofnodi Gweithred Gyflwyno gyda Meysydd Chwarae Cymru a chofrestru hynny.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Diogelu cae chwarae'r Brenin Siôr V ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol fel ardal hamdden awyr agored o ansawdd plaserus.

(2) Ffurfioli trefniadau gyda Meysydd Chwarae Cymru.

C763 ADRODDIAD GWRTHWYNEBIAD: QUARELLA STREET, Y BARRI – GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG MAN PARCIO I BOBL ANABL ARFAETHEDIG 9 (WCT) (CRAFFU - AMGYLCHEDD AC ADFYWIO)

Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am wrthwynebiad a dderbyniwyd a chynnig ffordd briodol ymlaen.

Roedd Quarella Street, Y Barri yn stryd breswyl teras a oedd yn dioddef o barcio eithafol oherwydd perchnogaeth aml-gerbyd gan drigolion y stryd. Roedd arsylwadau safle wedi cadarnhau'r broblem hon.

Derbyniwyd cais gan breswilydd anabl sy'n byw yn Quarella Street ar gyfer man parcio unigol i bobl anabl, oherwydd anawsterau parcio.

O ganlyniad, er mwyn cynorthwyo'r preswilydd anabl, cymeradwyodd y Cyngor y cais a hyrwyddodd gynllun i ddarparu man parcio i bobl anabl ar y lôn gerbydau yn union y tu allan i'w heiddo.

Dechreuodd yr ymgynghoriad cyfreithiol statudol ar 6 Mai 2021 a daeth i ben ar 28 Mai 2021, yn ystod y cyfnod hwnnw derbyniwyd dau wrthwynebiad ffurfiol i'r cynnig.

Roedd yn ofynnol i'r Cabinet ystyried y gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid rhoi'r lle parcio i bobl anabl ar waith.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y gwrthwynebiadau i'r cynnig yn cael eu gwrthod am y rhesymau a geir yn yr adroddiad a bod y lle parcio arfaethedig i bobl anabl yn Quarella Street yn cael ei weithredu.

(2) BOD y gwrthwynebwyr yn cael gwybod am y penderfyniad hwn

No.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Galluogi'r Gorchymyn i gael ei wneud.
- (2) Cadarnhau safbwynt y Cyngor.